

HIRAETHGAN

A ysgrifenydd er coffadwriaeth am bump oaelodau ffyddlon Eglwys Ebenezer, Tonypany, sef John Jenkins, 54 mlwydd oed; William Roblyn, 40 mlwydd oed; Evan Davies, 46 mlwydd oed; y tri hyn a laddwyd yn Nhanchwa ofnadwy Penygraig, Rhag. 10, 1880, pan gollodd 101 o bersonau eu bywydau. Rachel Davies, priod Evan Davies, yr hon a fu farw ychydig ddyddiau ar ei ol o'r darfodedigaeth; a Dafydd Thomas, o'r Brynhyfryd, 60 mlwydd oed, yr hwn a gyfarfyddodd a damwain angeuol yn Nghlofa Blaen Clydach, Rhag. 31, 1880.

"Death—to the faithful only is a sleep;
A gentle waiting to immortal life."—MILTON.

AWEN anwyl, rho farworn
O th ysbrydol nefol rin,
Megin lhw a gyfyrdodd
Ag Esaiah yn ei llin;
O! dwyfol'r Gân bruddglwyfus,
Rho ddyddanweh ar yr hyn;
Chwerwon iawn yw dyfroedl Mara,
Megin yn y dyddiau gynt.

Seion Duw sydd yn hiraethu
N herwyd colli'r brodyr en,
Esgynasant ar adenydd
Tanlyd i'r Baradwys fry;
O eigionau dwfn y ddaear,
Rhwyg asenau'r graig yn nghudd,
Lle nas caethu llygad bareud,
Ac nas traidd goleuni dydd.

Yn sefydlog fel dy lunan,
Mae dy ddeddfau, Arglwydd mawr;
Rhaid i ddyinion gymryd gofal,—
Rhaid eu gwyllo ar bob awr;
Angau du sydd yn ymguddio
N ddirgel yn y tanlyd nwy,
Gyda'i gledd yn noeth a pharod,
I roi ini farwol giwy'.

Tri o'n brodyr mwyaf ffyddlon,
Laddwyd yn y Danchwa blin;
Draw o'n gadael fel nas gallem
Yn yr ymdrech wlychu'n min;
Ymladd law-law gydag angau,
Heb gynorthwy gwraig na mam,
I orleddu rhyw ychydig
Ar eu poenau yn y filam.

O, fy mrodyr, marw'n unig—
Neb i ddala pwys eich pen,
Pan oedd angau'n dattod clyman
Bywyd—cyn rhoi lawr y llen;
Neb i sychu'r chwyss angenol,
Neb i wyllo'r olaf flin;
Neb i roi un help i farw
Yn y galed ymdrech flin.

Ond os oeddych oll o gyrlaedd
Pob cynorthwy daear lawr;
Yn amddifad o gyssuron
A mwyniannau mynydd awr;
Gwn fod engyl y gogoniant,
Yn ol archiad Iesu gwiw,
A'u phloiau oll yn llawnion
O gyssuron nefoedd Duw.

Os na ddaeth na char na chyfaill
Yno i ddala pwys eich pen,
Gwel o lawer oedd cynorthwy
Engyl tirion netoedd wen;
Mae tynerwech anesuroi,
A thirondeb fwy na mwy,
A chydymdeimlad dwfn nefolaidd
Yn eu gweinyddiadau hwy.

Beth all serch a chariad priod?
Beth all gofal tyner mam?
Dim ond dilyn hyd yr afon,—
Dyna gyd yw hyd eu cam;
Ond daw'n Iesu bendigedig
Gyda ni trwy rym y dwr;
Priod yw yn afon angau,
A'r ffyddlonaf oraf wr.

Seion anwyl, fe wnaed rhwygiad
Dwfn yn dy fynwes di;
Ebenezer sy'n galaru,—
Hyn arwyddar brethyn du;
Colli brodyr ffyddlon, didwyll,
Gwylywyr dewriau ar y mur;
Rhai ymladdent a'u gelynyon,
O dan bwysau poen a chur.

William Roblyn wrth ei enw,
Ydoedd un o'r brodyr hyn;
Difrychenlyd yn ei rodiaid,
Nes cyrlaeddodd Seion fryn;
Er nad ydoedd ef ond newydd
Gychwyn o dan faner gras,
Mynych temlwyd ei fod wedi
Profi rhin ei dwyfol flas.

Coedymeibion.

Athraw ddyd yn ei ddisparth,
Yn cyfrau gyda sel,
I'r rhai bychain dan ei ofal,
Wybodechuth'r byd a ddel;
Wyls'r Ysgol Sul o'i gollu,
A phruddglwyfus yw ei thant,
Am nad ydyw fel arferol
Idd ei ganfod gyda'r plant.

Cafodd Mrs. Roblyn golled
Ar ol priod serchog, mwyn;
Tad caruaid—llawn tirondeb,
O! mae'n anhawdd iawn ei dwyn;
Cadair wag sydd yn y teulu,—
Gwagder amryddedol yw,
Nad oes neb ond gwelidw unig
Sylweddola'r ddwyser byw.

Evan Davies oedd un arall
O'r anffodus frodyr hyn;
Yntau hefyd yn ddiymwth
Gariwyd gan y filam trwy'r glyn;
Gwr o roddid pur, diwyro,
Er ys blwyddau dan y groes,
Cafodd nerth i'w charion esgud,
Hyd derfyniad chwyn ei oes.

Gwelodd Evan yn ei fywyd,
Llawer iawn o rwystrau blin;
Dwfn drallodau a chystuddiau
Argraffasant arno'n llun;
Ond mae heddyw wedi ddiar
Ar drafferthion daear lawr;
Ac mae'n canu'n ffehel, uchel,
Ar orielau Gwlad y Wawr.

Ni wnaeth Evan prin ond blaenau
I broid addfwyn trwy y glyn;
Y mae lathan yn allardwys
Wedi ticio erbyn hyn;
Bwyfodd angau bob yn ronyd
Llyn bywyd hon yn llin,
Nes o'r diwedd, rhoddodd derfyn
Ar ei phoenau diwahan.

Chwae'r rinweddol, olenedig,
Dawifrydig traw'n y byd;
Chwilini'r ysgrythrau beunydd,—
Yn y Gair yr oedd ei byd;
Pwysai ar ei addewidion,
Yfai o'i gyssuron byw;
Yn y blin cystuddiau poenus,
Cymdeithasai gyda'i Duw.

Arglwydd, dyma'r ergyd trymaf
O'r ergydion oll i gyd;
Taro tad i fedd yn sydyn,
Wed'yn taro nam yn fud;
Beth ddaw o'r rhai bach amddifad?
Pwy wna edrych na chant gam,
Yn y byd digariad oerlyd,
Wedi colli'n tad a'u nam?

O, fy Nuw! mae'n anhawdd ini
Dilydded yr ergydion hyn!
Ac mae'n anhawdd peidio d'wedyd
Dim yn ynyd yn y glyn;
Cymryd ffwrdd yr amddiffynfa—
Noddfa y rhai bach dinam,
Gan eu gadael yn amddifad,
Heb un tad ac heb un fam.

Rhaid prysuro'n mlaen yn nihellach,
Er mor arw yw y don;
Mrs. Jenkins sy'n y dyfroedd,
Wedi colli'i hanwyl John;
Am ffynyddau maith bu iddi
N broid tyner, addfwyn iawn;
Yn mhob stormydd a gofidiau,
Llithai'i gariad ati'n llawn.

Tad synwrol, pwylllog odiaeth,
Ac uchelyw yn ei foes;
Wedi harddu ei gymmeriad
Gyda rhiniau marwol loes;
Ef yn foren ymstyngodd
I alwadau Iesu gwiw;
A chylhaeddodd ben ei yrfa
Heb un ewmwl du ei liw.

Athraw ffyddlon yn yr ysgol
Am ffynyddau maith y bu,
Ac mae'i wersi adlysgiadol
Yn ddwfn yn nghlalonau llw;
Cerid ef gan ei adlysgybiol
Fel y car y plant eu tol;
Melin odiaeth yw'r adgofion
Am ei ddoeth gynghorion maad.

Ond mae yntau erbyn heddyw
Wedi gado'r anial maith,
Wedi myn'd uwch lliot gelynyon,
Wedi cyrlaedd pen ei daith;
Mrs. Jenkins, peidiwch wyllo
Mwy ar ol eich hanwyl John,
Y mae heblyw'n gwisgo'i goron
Yn yr heiddol drigianau hon.

Seklan'r brodyr sydd yn weigion
Yn ein Hebenzer ni,
Ond y mae gorseidau llawnion
Yn y lon Gaersalem fry;
Os oes na lan yn ddiffygol
Yn y cyssuron glau,
Y mae lleisiau mwy perswmol
Fry yn chwyldo'r nefol gan.

Seion, cyfol, pail hiraethu,
Os y seiliau'n weigion sy',
Fe ddaw lloedd i ymofyn
Etto am gael lle'n y ty;
Fe ofala'th Arglwydd tiron
Llaw'r blichau cyn bo hir,
O'r rhai fyddo'n ofni'i enw
Gyda chalon berffaith bur.

Wedlwon anwyl, rhowch eich gogld
Ar adlewid gatau Duw,
Barawr gweddion, tad amddifad,
Syl'n y nefoedd otto'n fyw;
Ef a'ch cynnal yn y stormydd
A'r trallodau mwyaf ereh,
Dlaw i'ch ewrddyd yn yr anial,
Os rhowch arno'ch bryd a'ch serch.

Cyn i Seion prin gael amser
Sychu ffwrdd ei dagrau llaith,
Mae un arall o'r ffyddloniaid
Yn cyrlaedd pen ei daith;
Dafydd Thomas o'r Brynhyfryd,
Cristion selog, cywir iawn,
Wedi aros yn y winllan
Hyd nes daeth ei hwyr byrdawn.

Cawr oedd Dafydd wrth yr orsedd
Megin Jacob myni ef,
Cyn roi fyny, gael bendithion
O drysorau nef y nef;
Tynai wrth yr addewidion,
Nes y deuai'n heddi i lawr,
Ac ni deimlen wrth ei wran-fo
Beraroglan gwlad y wawr.

Yn nghwrded gwelid'r brodyr iennau,
Teimlir colled ar ei ol;
Ni ddaw etto a chysuron
Nefoedd yno yn ei gol;
Ni rail mwyach wrth weddio,
Moli beunydd yw ei waith,
Gyda'r Oen ar ffynyd Seion,
Am ei gymnal ar ei daith.

Yngymysgwch, frodyr anwyl,
Eich caniaidau gyda'r llu,
Syl'n ddiilor yn canu'r anthem—
Anthem newydd Calvari;
Cenwech, cenwech, hyd nes byddo
Holl oronau gwlad y gwawl,
Yn adseinio i'w theryfian
Gan rymusder pur eich mawl.

Minnau ddoef i chwyldo'r ganiad
Atoch frodyr cyn bo hir,
Pwyf yn dechren blino cisioes
Ar ofidiau'r anial dir;
O am nerth i ddal yn ffyddlon
Hyd nes cael y goron draw,
Pan gawn roddio heiddol lnerchan
Gwynfa lonydd law yn llaw.

EVAN LEWIS.

D. DAVIES, MACHINE-PRINTER, TREORKY A'R PORTH.